



Gorffennol Digidol Digital Past - 2021

DEFNYDDIO RHANNU-SGILIAU DIGIDOL I DDEMOCRATEIDDIO
YMGYSYLLTU CYMUNEDOL A DATBLYGU CASGLIADAU

Drew Ellery, Swyddog Digidol, [Canolfan RACE ac Ymddiriedolaeth Addysg Ahmed Iqbal Ullah](#)



[Gorffennol Digidol 2021](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan | 8^{ed} – 12^{ed} Chwefror 2021, ar-lein drwy Zoom.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English.

Mae gan Ganolfan RACE ac Ymddiriedolaeth Addysg Ahmed Iqbal Ullah berthynas symbiotig. Mae'r Ymddiriedolaeth Addysg yn cefnogi prosiectau treftadaeth gymunedol ethnig a diwylliannol amrywiol, sy'n cynhyrchu deunyddiau (gan gynnwys cyhoeddiadau, hanesion llafar, deunydd creadigol, a phapurau a roddir) a gedwir yng nghasgliad archifau'r Ganolfan RACE. Yn ei dro, defnyddir y deunydd archifol hwn yn sylfaen ar gyfer gwaith estyn-allan yn y dyfodol.

Mae'r prosiect *Coming in from the Cold* wedi ein galluogi i weithio gyda llawer o grwpiau cymunedol amrywiol sydd wedi'u tangynrychioli, gan sicrhau eu bod yn derbyn hyfforddiant mewn digido ffotograffau a dogfennau, recordio hanesion llafar, a churaduro cynnwys digidol.

Mae'r model cyfranogol hwn yn rhoi awdurdod i'n grwpiau dros gynhyrchu a churaduro eu deunydd digidol eu hunain. O ganlyniad i'r hyfforddiant hwn, mae ein grwpiau wedi cynhyrchu deunydd deniadol ar gyfer arddangosfeydd, gweithdai, cyflwyniadau a gwefannau, gan sicrhau bod eu storïau'n cael eu clywed a bod ein harchif (yn Llyfrgell Ganolog Manceinion) yn adlewyrchu'n well natur amrywiol Manceinion Fwyaf.

Byddaf yn rhannu ein hymagwedd gyfannol at ymgysylltu cymunedol a datblygu casgliadau ac yn trafod sut y gall sefydliadau ailystyried dynameg grym a rheolaeth mewn byd cynyddol ddigidol.

Bywgraffiad

Drew Ellery yw Swyddog Digidol Canolfan RACE ac Ymddiriedolaeth Addysg Ahmed Iqbal Ullah. Dechreuodd ei yrfa fel Archifydd dan Hyfforddiant gyda rhaglen Sgiliau i'r Dyfodol National Archives. Prif ffocws ei waith yw defnyddio digido a thechnolegau digidol i gynyddu mynediad i'r casgliadau archifol yn Llyfrgell Ganolog Manceinion. Cwblhaodd MA mewn Astudiaethau Amgueddfa ac Oriel ym Mhrifysgol Manceinion yn ddiweddar.



[Gorffennol Digidol 2021](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan | 8^{ed} – 12^{ed} Chwefror 2021, ar-lein drwy Zoom.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English.